

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

SYNIADAU A GWEITHGAREDDAU RHYNG-FFYDD



Ledled y wlad, bydd grwpiau Rhyng-ffydd a CYSAGau (gweler isod) a gobeithio nifer o'r cymunedau ffydd hefyd, wedi cael gwybod am Fis Dathlu AG a byddant yn arbennig o barod ac eiddgar i gefnogi unrhyw weithgareddau ysgol sy'n edrych ar y dimensiwn rhyng-ffydd, y gallai athrawon fod angen cyngor a chymorth ar eu cyfer. Felly, yn ystod mis Mawrth 2011, cymerwch gam y tu hunt i astudiaethau arferol ysgol o wahanol ffydd a chredoau i ddysgu am gyfarfyddiad rhyng-ffydd a manteisio ar yr ewyllys da 'sydd allan yna'.....

Sylwer: Mae'r adran hon yn berthnasol i flwyddyn pump ac uwch. Mae'n debyg na fyddai'n addas i blant iau fod yn astudio perthnasau rhyng-ffydd mewn ffordd hunanymwybodol - maent yn perthnasu'n naturiol! Mae'n bwysig, wrth gwrs, eu bod yn dysgu am grefyddau eraill, ar lefel sy'n addas i'w hoed, ond ddim yn dadansoddi beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol neu'n ddadleuol.

Beth yw 'rhyng-ffydd' a pham ei fod yn bwysig?

Nid crefydd neu gwlt newydd yw 'rhyng-ffydd'. Nid dim ond dysgu am grefyddau eraill chwaith, er bod hynny'n hollbwysig hefyd. Nid yw'n 'grefydd gymharol' chwaith gan fod hynny'n awgrymu rhoi barn. Mae'n golygu siarad a gweithredu gyda phobl o wahanol ffydd a chredoau. Mae'n ymwneud â phobl yn gwrandao ar ei gilydd ac yn dod o hyd i dir cyffredin a pharchu gwahaniaethau. Ac mae'n golygu gwneud pethau gyda'ch gilydd - fel gweithio ar brosiect cymunedol, cyfarfod yn gymdeithasol, mynd ar dripiâu, ymweld â llefydd addoliad y naill a'r llall, dechrau clwb celf, hyd yn oed lobiö gwleidyddol. Yn naturiol mae hyn yn

cynnwys credoau a safbwyntiau'r rheiny nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw grefydd. Ac i'r rheiny ohonoch y mae eu hysgolion mewn ardaloedd heb fawr o amrywiaeth grefyddol - parhewch i ddarllen.

Mae yna ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd trafodaeth a chyfarfod rhyng-ffydd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i heddwch a chytgord ein cymunedau ac mae grwpiau rhyng-ffydd yn tyfu ledled y wlad, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig. Cafodd hyn ei ysgogi a'i annog i raddau helaeth gan Rwydwaith Rhyng-Ffydd y DU, corff sy'n gweithredu'n genedlaethol ac sydd â gwefan ddefnyddiol iawn (www.interfaith.org.uk) a chyhoeddiadau sy'n cynnwys cyfeirlyfr o leoliadau a manylion cyswllt grwpiau rhyng-ffydd, a hefyd cyfeirlyfr o lefydd addoli dros y wlad gyda gwybodaeth ddiweddar ardderchog am bob crefydd.

Ym mis Tachwedd 2009 cynhaliwyd yr 'Wythnos Ryng-Ffydd' gyntaf. Bydd un arall ym mis Tachwedd 2010 (www.interfaithweek.org.uk) - cliciwch ar 'Ideas for schools'. Mae'n werth edrych ar 'Events 2009' hefyd, gellid addasu rhai o'r rhain i'ch ysgolion).

Mae CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) gan bob awdurdod lleol. Mae'n debyg bod cynrychiolwyr o wahanol grefyddau ymhlith ei aelodau ac mae CYSAG yn fwy a mwy yn hyfforddi eu haelodau i fynd i ysgolion i siarad a chynghori. Fel athrawon gallwch gysylltu â'ch CYSAG i gael cyngor a chefnogaeth (i gael y cyswllt yn eich Awdurdod Lleol chi, gweler <http://www.nasacre.org.uk/members.html>).

Mae yna lawer o anwybodaeth a rhagfarn a stereoteipio a diffyg dealltwriaeth am grefyddau, yn aml mae hyn yn waeth oherwydd bod y cyfryngau'n gorliwio pethau. Mae'n bwysig ceisio cywiro camddealltwriaeth a darganfod y gwir am wahanol fathau o ffydd. Dylai hyn ddigwydd ar

lefel bersonol, drwy ddod i nabod y disgyblion nesaf atom yn well, y rhieni wrth giât yr ysgol, ein cymdogion, cydweithwyr a'r bobl rydym yn ymweld â'u gwledydd yn ystod y gwyliau. Gellir lleihau camddealltwriaeth o'r fath os yw pobl yn darganfod yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin a cheisio parchu - a hyd yn oed fwynhau - y gwahaniaethau a dysgu doethineb o draddodiadau ei gilydd. Wedyn bydd gwell siawns fod cymunedau'n cyd-fyw yn heddychlon gyda'i gilydd, bydd unigolion yn deall mwy a hyd yn oed yn mwynhau'r broses.

Gellid defnyddio'r gweithgareddau a awgrymir isod i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Peidiwch â chael eich atal gan eich diffyg arbenigedd honedig chi yn y maes hwn: nid oes raid i chi wybod popeth am bob crefydd a chred! Yn aml nid oes ateb cywir neu anghywir i gwestiwn; yn wir gall fod o fantais os ydych chi fel yr athro yn mynd i mewn i'r ysbryd ymchwilgar gyda'r bobl ifanc. Mynnwch gymorth rhieni a CYSAG a phobl yn y gymuned leol o wahanol grefyddau os gallwch chi. Defnyddiwch y sylw arbennig i AG yn ystod y mis Dathlu fel rheswm i ofyn am gymorth.

Os yw'ch ysgol mewn ardal lle nad oes nemor ddim amrywiaeth crefyddol, mae dal i fod digon o ffyrdd o ymchwilio i ryng-ffydd yn y syniadau isod. Efallai y gallech 'efeillio' / dechrau cysylltiad ag ysgol arall lle mae yna amrywiaeth grefyddol - drwy gyfathrebu rhyngwyd (ee anfon e-byst, cynadledda fideo, Skype) ysgrifennu llythyrau ac ambell i ymweliad. Mae disgyblion bob amser wrth eu bodd yn gweld ysgol arall - mae'n gweithio ddwy ffordd, byddai'r ddwy ysgol ar eu hennill. Gall y Rhwydwaith Cysylltu Ysgolion eich cyngori: www.schoolslinkingnetwork.org.uk



Grwpiau Rhyng-ffydd

Ymchwil a gweithredu

Gofynnwch i'r disgyblion:

- edrych ar wefannau dau grŵp rhyng-ffydd. Gallai'r rhain fod y South London Interfaith Group (www.southlondoninterfaith.org.uk) a grŵp lleol, os oes yna un yn eich ardal (gweler y Rhwydwaith Rhyng-Ffydd uchod).
- darganfod beth yw eu nodau; sut maent yn gweithio/yn cael eu trefnu; beth yw eu rhaglen weithgareddau.
- gwneud nodiadau ar y gwahaniaethau a'r pethau cyffredin rhwng y ddau grŵp.
- gwneud cynlluniau i gael grŵp rhyng-ffydd i bobl ifanc yn eich ardal; ystyried agweddau fel cyfansoddiad, aelodaeth, amcanion (ee addysgol? cymdeithasol? gwybodaeth? dangos ochr a chefnogi'r naill a'r llall?) a gweithgareddau / rhaglen flynyddol (ee trafodaethau a dadleuon)? gweithgaredd ar y cyd / ymweliadau? prosiect gwasanaeth cymunedol: dathlu gŵyl? grŵp pwysau gwleidyddol? cyfeillgarwch / croesawu'r naill a'r llall?). Yna gofynnwch i'r disgyblion lunio taflen i'w hysbysebu.

Media influence

Casglu a thrafod

Gofynnwch i'r disgyblion gasglu toriadau newyddion cyfredol am fis neu fwy ar destun crefydd (gallent ofyn i deulu a ffrindiau helpu). Gall y disgyblion eu defnyddio wedyn i wneud arddangosfa neu lyfr lloffion (byddai mis Dathlu AG yn amser da i ofyn am ofod arddangos yn llefydd cyhoeddus yr ysgol). Gadewch i'r dosbarth eu dadansoddi i weld beth yw'r pynciau dan sylw (e.e. addysg, cyfreithiol, materion ymddangosiad a gwisg, cywirdeb gwleidyddol, hiliaeth, cabledd, ysgolion ffydd, rhyngwladol, materion teulu, digwyddiadau a gwyliau ayb).

Ydi hwn yn newyddion da? newyddion drwg? adroddiad teg, gwrthrychol?

Trafodaeth: 'Ydi'r cyfryngau yn rym creadigol neu ddinistriol i gael cytgorod rhyng-ffydd? Ydyn nhw'n atgyfnerthu rhagfarn a stereoteipiau neu ydyn nhw'n dathlu amrywiaeth?

Efallai y gallech wahodd gohebydd o bapur newydd lleol i ymuno â chi.



Ymchwiliad ysgrythurol

Astudio a thrafod

Beth mae'r ysgrythurau gwahanol yn ei ddweud am faterion arbennig (ee cariad, marwolaeth, maddeuant, cymod, trugaredd, trachwant)? Mae Fforwm y Tair Ffydd yn rhedeg gweithdai rhyngffydd i ysgolion. Dull un ohonynt yw darllen darnau o'r gwahanol ysgrythurau gyda'i gilydd a thrafod y goblygiadau, y tir cyffredin a'r gwahaniaethau – mae hyn wedi cael ei ystyried yn ofalus er mwyn annog gwrandao hael a chanfod ffyrdd o osgoi gwrthdaro a chamddealltwriaeth yn ystod y drafodaeth. Ewch i www.threefaithsforum.org.uk a chwiliwch am education/Tools 4 Dialogue. Sylwer: y tair ffydd yw Iddewiaeth, Cristionogaeth ac Islam ond gellir ehangu'r dull i grefyddau eraill.

Bwrdd arddangos gwyliau blynyddol

Ymchwil a gweithredu/digwyddiadau

Chwiliwch am galendr o wyliau crefyddol.

Mynnwch fwrdd arddangos mewn lle amlwg (mynedfa, neuadd yr ysgol, llyfrgell, ystafell TG). Gwnwch hwn yn 'Fwrdd Gwybodaeth Gwyliau Crefyddol' sy'n newid ar ddechrau pob mis, i gyhoeddi prif wyliau'r mis hwnnw gyda lluniau a gwybodaeth. Ceisiwch ddod o hyd i agweddau o ddathlu gwyliau sy'n cael eu rhannu gan grefyddau gwahanol yn ogystal ag agweddau sy'n gysylltiedig â thraddodiadau unigol.

Ymchwiliwch i chwech o'r gwyliau (crefyddau gwahanol), un mewn chwe mis gwahanol. Paratowch chwe chyflwyniad i'w rhoi i ddosbarth arall neu (os yw'r rhain yn electronig) i'w hanfon drwy e-bost at ysgol arall), un ar gyfer pob hanner tymor yn y flwyddyn

Siarad gyda'n gilydd

Sgwrs a thrafodaeth

Sut all pobl siarad gyda'i gilydd am eu gwahaniaethau heb ffraeo? Os oes modd, mynnwch set i'r dosbarth neu o leiaf chwe chopi o'r llyfr *Talking Together*¹. Mae'n cynnwys chwe sgwrs 'cymryd rhan' dychmygol rhwng pobl ifanc o grefyddau gwahanol (di-grefydd) yn siarad am bynciau o ddiddordeb iddyn nhw – enwau, bwyd, gwisg, teithiau a marwolaeth.

Mae gan bob sgwrs 10 munud chwe chymeriad ac maen nhw'n dechrau gyda chwestiwn cyffredin fel "Pam dwyt ti ddim yn bwyta'r byrgyr na, Hansa?" (Hindw yw Hansa) neu "Satvir, pam nad yw dy dwrban di'n dod i ffwrdd pan ti'n chware pêl-droed..." neu "Beth yn union fydd yn digwydd pan fydd dy frawd bach di'n cael ei fedyddio?"

Mae'r siarad yn mynd yn ddyfnach wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen. Caiff ei darlunio â chapsiynau llawn gwybodaeth gydag adran gwybodaeth gyffredinol gryno a mynegai yn y cefn. Ceir cwestiynau sy'n ysgogi meddwl ar ddiwedd pob sgwrs a syniadau am ymchwil a gweithgareddau pellach.

¹*Talking Together* by Sarah Thorley ISBN 1-84298-110-2 from John Hunt Publishing. Or direct from thorleysarah@yahoo.co.uk (£4 plus p&p).

A sample chapter can be seen on the Lambeth SACRE website /syllabus/KS3/inter faith unit pp13-16.

Llwybr AG

Sgwrs a thrafodaeth

Edrychwch ar wefan Llwybrau AG, a ddyfeisiwyd gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr www.retrails.org.uk.

Oes yna lwybr yn eich ymyl chi? Os nad oes, allech chi wneud un i'ch ardal? Gallech hyd yn oed ei anfon i mewn i'w ystyried ar gyfer gwefan genedlaethol y Cyngor. Diben Llwybr o'r math hwn yw helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'r effaith y mae traddodiadau crefydd a chred wedi eu cael mewn cymuned arbennig. Gallai creu Llwybr yn ystod mis Dathlu AG fod yn etifeddiaeth barhaol o safbwynt y cwricwlwm AG a'r cysylltiadau a wnewch â chymunedau ffydd lleol.

Os nad ydych yn gallu gwneud hyn yn eich ardal chi, gallwch fynd â'r disgyblion ar 'rith' lwybr ar-lein. Edrychwch ar un Llwybr arbennig, fel un Streatham ac ewch i wefannau'r llefydd a gynhwysir a gofyn i'r disgyblion siarad am y Llwybr – fel gweithgaredd grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion fyfyrion am y gwahaniaethau rhwng y crefyddau a'r elfennau tebyg a'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt.

Gofynnwch i'r disgyblion ganfod gwahaniaethau o fewn yr un crefydd (os ydych yn ymweld â mwy nag un eglwys, er enghraifft). Cynhwyswch weithgaredd sy'n gwneud iddynt feddwl am stereoteipio ac i sylweddoli nad yw pob Mwslim yr un fath, na phob Cristion yr un fath - ac nad ydynt fel y'u darlunnir gan y cyfryngau chwaith.



Gall y disgyblion ymchwilio i weithgareddau'r cymunedau ffydd ar eu hysbysfyrddau, yn cynnwys meddwl am pam a sut y mae delfrydau crefyddol pobl yn eu hysgogi i wasanaethu eu cymunedau. Sut maen nhw'n helpu pobl mewn angen? Pobl yn y gymdogaeth? Pobl mewn gwledydd pell?

Ysgolion ffydd

Ymchwil a thrafod/gweithredu

Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar brospectws eich ysgol a chysylltu â neu fynd i wefannau dwy ysgol ffydd (neu os yw'ch ysgol chi'n un ffydd, un ysgol ffydd arall ac ysgol 'seciwlar') ac edrychwch ar eu prospectwsau. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng prospectws y dair ysgol? Gofynnwch i'r disgyblion edrych yn arbennig ar yr agweddau 'ffydd'. Os oes modd, trefnwch i ymweld ag ysgol sy'n wahanol i'ch un chi. Beth yw barn y disgyblion am ysgolion un ffydd? Trafodwch dros ac yn erbyn.

Gofynnwch iddynt gynllunio prospectws ar gyfer 'Ysgol Aml Ffydd'. Bydd hon yn ysgol sy'n gwahodd ceisiadau gan ddisgyblion o wahanol grefyddau, neu heb grefydd. Bydd yno ethos o gymryd ffydd a chred o ddifrif, ond gwneir trefniadau i ddiwallu anghenion cefndiroedd crefyddol a ffydd y disgyblion a'r staff. Tasg y disgyblion: cynllunio ystafell weddi neu fyfyrio tawel a allai gael ei defnyddio gan ddisgyblion a staff o wahanol ffydd neu rai heb ffydd.

Cytgord

Cynllunio digwyddiad

Trefnwch wythnos yn eich ysgol ar y thema *Heddwch neu Gwneud Ffrindiau gyda'ch Cymydog o Ffydd Arall* neu *Gytgord Rhyng-Ffydd yn ein cymuned/gwlad*. Beth allech chi ei wneud mewn hanes, daearyddiaeth, TG, celf a drama? Rhannwch eich syniadau gyda phob athro yn yr ysgol (dipyn cyn yr wythnos). Yn dibynnu ar eich ardal, gwahoddwch rieni a/neu arweinwyr crefyddau gwahanol i ddod i mewn a chyfrannu. Gosodwch arddangosfeydd o amgylch yr ysgol. Hysbyswch y wasg leol a'u gwahodd i ymweld ac adrodd yn ôl neu ysgrifennwch eich adroddiad eich hun a'i anfon i mewn gyda lluniau.

Efallai y gallech gynnwys clwb trafod amser cinio wythnosol yn ystod mis Dathlu AG. Beth sy'n gyffredin rhwng y gwahanol grefyddau?

Gofynnwch i'r disgyblion dynnu sylw at rai o'r gwahaniaethau (heb roi barn ar werth) a meddwl am y cwestiwn, 'O ble mae pobl sydd heb grefydd yn cael eu syniadau a'u moesau a'u hysbrydoliaeth i fyw?'

Stereoteipio

Gweithredu a myfyrio

Allwn ni byth ddweud 'Mae pob Cristion yn gwneud hyn' neu 'Mae pob Hindw'n credu hyn' neu 'Mae pob agnostig yn meddwl hynna'. Mae amrywiaeth enfawr mewn cred ac ymarfer o fewn pob crefydd. Gofynnwch i'r disgyblion archwilio / llunio holiadur (tua 10-15 cwestiwn) a cheisio siarad â 3 person o enwad neu gainc wahanol o gynifer o grefyddau neu ddiwylliannau gwahanol ag y gallwch, er enghraifft:

- Eglwyswr, Bedyddiwr a Chrynwyr NEU dri Christion, un o Affrica, un o'r Caribî, un arall o wlad yn Nwyrain Ewrop.
- Mwslim o Affrica, un arall o India ac un arall o'r Dwyrain Canol NEU Fwslim Suni, Mwslim Shi'a a Mwslim Sufi
- Bwdhydd o Siapan, un arall o Dibet ac un arall o Sri Lanka.

Dylai'r rhai sy'n holi geisio gwneud hyn heb roi barn ar werth (hy heb ddweud fod un ffordd yn well na'r llall). Enghreifftiau o gwestiynau:

- *Sut beth yw'r adeilad lle dach chi'n mynd i addoli?*
- *Beth yw rhannau pwysicaf eich addoliad?*
- *Oes gennych chi seremonïau enwi i fabanod? Beth sy'n digwydd?*
- *Beth yw'ch arferion mewn angladd?*
- *Beth ydych chi'n credu sy'n digwydd i ni ar ôl i ni farw?*

Ysgrifennwch eich canfyddiadau mewn llyfr lloffion dosbarth.

Sylwer: ceisiwch egluro'r gwahaniaeth rhwng dysgeidiaeth grefyddol a thraddodiad diwylliannol (e.e. mae priodasau a drefnwyd yn gyffredin ymhlith Cristnogion Indiaidd yn ogystal ag ymhlith Hindwïaid a Mwslëmiaid a Sikhiaid Indiaidd - felly traddodiad diwylliannol yw hwn yn hytrach na dysgeidiaeth grefyddol neu ysgrythurol).

Ystyr geiriau

Ymchwil ac astudiaeth – CA4 i fyny

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu beth maen nhw'n ddeall yw ystyr y geiriau hyn: gweddi, addoli, pererindod, cysegr, nefoedd, enaid (neu ysbryd), proffwyd, offeiriad, mynachod a lleianod, sant. Dylent drafod eu hatebion gyda phartner, yna'r parau'n rhannu eu syniadau mewn grŵp o bedwar. Gofynnwch iddynt ystyried sut y gall y geiriau hyn gael eu defnyddio neu eu deall yn wahanol gan grefyddau gwahanol, er enghraifft y geiriau:

- *Offeiriad* i Gristion ac i Hindŵ.
- *Pererindod* i Fwslim ac i Hindŵ.
- *Mynach* a lleian i Fwdhydd ac i Gristion.
- *Guru* i Sikh ac i Hindŵ.
- *Y Sabbath* i Iddew ac i Gristion.
- *Eilun* i Hindŵ ac i Iddew neu Gristion.
- *Y Bywyd Tragwyddol* i Fwslim ac i Fwdhydd.
- *Bedydd i Sikh ac i Gristion..*

Mae camddealltwriaeth yn aml yn digwydd rhwng pobl oherwydd y gall y geiriau hyn olygu gwahanol bethau i wahanol bobl – mae bob amser yn bwysig siarad am anawsterau o'r fath wrth iddynt godi.

Gwaith tîm: y disgyblion i lunio cofnodion i 'eiriadur rhyng-ffydd' gan roi'r dehongliadau gwahanol o rai o'r geiriau hyn i'r crefyddau gwahanol.

Rhagor o bosibiliadau

Bwyd

Mewn:

- arferion crefyddol
- lletygarwch
- cyfreithiau crefyddol ag agweddau at gamdriniaeth (alcohol, cyffuriau, llysiuol ayb)

Enwau

- enwau a'u tarddiadau
- enwau a symbolau gwahanol i Dduw

Crefydd neu ddiwylliant?

Ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng arferion a thraddodiad diwylliant a chrefydd. Ystyron symbolaidd gwisg ac ymddangosiad a'r camddealltwriaethau ... (Twrban Sikh, niqab, croes)

Gweithgaredd rhyng-ffydd yn genedlaethol

Edrychwch ar y rhestr weithgareddau ar wefan Wythnos Ryng-Ffydd ...

